



## CYFLWYNIAD

- 1 Mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd sefydliadau i roi eu barn ar amryw o ddewisiadau sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â chyllid premiwm ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r cylchlythyr yn adeiladu ar ymatebion y sector i ddigwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd yn swyddfeydd CCAUC ym mis Medi 2006 yn sgil derbyn cyngor gan ymgynghorwyr a benodwyd gan CCAUC i ystyried priodoldeb y trefniadau presennol ar gyfer taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg.
- 2 Mae'r cylchlythyr hwn yn ceisio barn ar gynigion yn ymwneud â diffiniadau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn nhermau cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm, ac am y lefel drothwy ar gyfer peidio â rhoi cyllid o'r fath. Yn ogystal, ceisir sylwadau ar gynigion yn ymwneud â pha bynciau sy'n gymwys ar gyfer taliadau premiwm, mewn perthynas â thaliadau ychwanegol am bob modiwl cyfrwng Cymraeg, ac â data a ddychwelir am staff.
- 3 Mae dau gam i'r ymgynghoriad hwn:
  - Ceisir ymatebion ynghylch y trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg (paragraffau 8 i 10) erbyn **19 Ionawr 2007**. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno'r newidiadau wrth gyfrifo cyllid premiwm 2007/08. Cewch gyflwyno eich ymatebion i'r adran hon ar y ffurflen a ddarparwyd.
  - Ymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Bydd penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad yn dylanwadu ar sut y bydd sefydliadau'n cofnodi data cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Gan fod y data a ddefnyddir gan y Cyngor i gyfrifo taliadau premiwm yn ôl-weithredol, bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn weithio eu ffordd drwodd i ddyraniadau'r sefydliadau. Ceisir ymatebion erbyn **17 Chwefror 2007**.

## CEFNDIR

- 4 Mae CCAUC yn defnyddio data o gofnodion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA) ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i gael gwybodaeth ar gyfer cyfrifo dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg ac i fesur cynnydd yn erbyn y targed cyfrwng Cymraeg yn Ymgeisio'n Uwch. Rydym wedi cael ar ddeall, yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr yn y sector, fod ansicrwydd ynghylch y diffiniadau a sut i'w dehongli. Ymhellach, ers i'r diffiniadau a'r canllawiau gael eu cyhoeddi gyntaf ym 1994, cafwyd datblygiadau sylweddol mewn dulliau dysgu ac addysgu yn ogystal â newidiadau yng nghwricwla a phortffolios y sefydliadau. Oherwydd hyn, roeddem o'r farn ei bod hi'n briodol i adolygu'r canllawiau.
- 5 Hefyd comisiynwyd London Economics i ymgymryd ag astudiaeth o gostau darpariaeth cyfrwng Cymraeg er mwyn i ni gael amcan o briodoldeb y trefniadau presennol ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg. Ymwelodd yr ymgynghorwyr â'r sefydliadau i siarad â'r staff perthnasol ac i geisio a dadansoddi data gan y sefydliadau. Trafodwyd ffrwyth eu gwaith mewn seminar i'r sector ar 29 Medi, a bu'n sylfaen i'r ymgynghoriad hwn.
- 6 Gan ddibynnu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gobeithir y bydd yn bosibl rhoi cynigion gerbron y Cyngor yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o gyflwyno unrhyw newidiadau mewn perthynas â chyllid premiwm cyfrwng Cymraeg yn raddol o 2007/08.
- 7 Mae topigau yr hoffem gael eich barn arnynt wedi'u nodi mewn teip trwm italig. Gweler Atodiad B am y diffiniadau presennol a'r canllawiau ar ddata cyfrwng Cymraeg yr AYAU a'r premiwm. Mae dogfen ddiwygiedig arfaethedig, a drafodir ymhellach isod, yn Atodiad B.

## TROTHWY CYMHWYSTER

- 8 Mae'r diffiniadau presennol yn cynnwys cyfran leiaf o fodiwl y mae'n rhaid iddi gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn i'r ddarpariaeth fod yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm. Y gyfran leiaf ar hyn o bryd yw 25% o'r modiwl (Atodiad A, c). Rydym wedi ystyried sawl ffordd o addasu'r trothwy cymhwyster hwn. Rydym yn ymwybodol o'r angen i gydbwysu awydd i hybu cymaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg â phosibl, ac i sicrhau bod costau ychwanegol darpariaeth o'r fath yn cael eu hadlewyrchu mewn cyllid ychwanegol drwy'r premiwm, â'r awydd i sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r fath o faint ystyrion. Byddem hefyd yn dymuno sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn denu cyllid premiwm mewn ffordd deg, ac nad yw meintiau cyffelyb o ddarpariaeth yn cael eu rhwystro'n amhriodol rhag bod yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm.
- 9 Gan gadw'r ystyriaethau hyn mewn cof, cynigiwn y dylid cadw trothwy cymhwyster lleiaf ond y dylid newid ar ba lefel y mae'n cael ei gymhwyso a sut y mae'n cael ei gyfrifo. Rydym yn ymwybodol bod y trothwy presennol o 25% ar gyfer pob modiwl yn golygu nad yw cyfrannau gweddol fach o fodiwlau mawr a all, mewn termau absoliwt, fod yn swm gweddol fawr o weithgaredd dysgu a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, yn gymwys ar gyfer cyllid premiwm. Yn wir, gall y dull hwn olygu nad yw elfennau sylweddol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a fyddai wedi denu cyllid premiwm pe baent wedi cael eu pecynnu'n nifer mwy o fodiwlau llai, yn gymwys. Am y rheswm hwn, cynigir y dylid diffinio'r trothwy lleiaf yn nhermau maint credyd. Ni fyddai'r dull hwn yn cael unrhyw effaith ar ofynion casglu data: byddem yn cyfrifo maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg fel lluoswm y dangosydd canran a ddychwelir ar hyn o bryd i Gofnod Myfyrwyr yr AYAU ym meysydd 91 i 106 a chyfanswm y credydau ar gyfer y modiwl a ddychwelir ym maes 9 o Gofnod Modiwlau'r AYAU.
- 10 Cynigir y dylid gosod y trothwy cymhwyster lleiaf ar 2 gredyd, sef 20 o oriau dysgu tybiannol, oherwydd yr ystyrir bod hyn yn cynrychioli profiad dysgu lleiaf drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n ystyrion at y pwrpas hwn.

### ***Ceisir barn ar:***

- i) priodoldeb diffinio'r trothwy yn nhermau credyd, a***
- ii) y trothwy arfaethedig o 2 gredyd.***

**Byddwchystal ag ymateb i'r cwestiynau hyn ar y ffurflen a ddarparwyd erbyn 19 Ionawr 2007 (Atodiad C).**

## DIFFINIADAU

- 11 Nid yw'r datganiad presennol sy'n diffinio modiwl addysgu cyfrwng Cymraeg, a roddir yn Atodiad A, wedi cael ei ddiweddarau ers 1994. Nid yw'r derminoleg yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r arfer presennol mewn dysgu ac addysgu, gan ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar addysgu ffurfiol a chan nad yw'n darparu ar gyfer e-ddysgu ac asesu anysgrifenedig. Gweler Atodiad B am y diffiniad diwygiedig sy'n cael ei gynig.

***Ceisir barn ar briodoldeb y diffiniad diwygiedig, yn amodol ar y cynigion ynghylch y trothwy cymhwyster a amlinellir isod.***

- 12 Wrth ddiwygio'r diffiniad o fodiwl addysgu cyfrwng Cymraeg, rydym wedi nodi'n glir y camau i'w cymryd mewn amgylchiadau lle mae modiwl yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ond lle mae myfyriwr yn dewis cael ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg (Atodiad B, c).

***Byddem yn croesawu:***

- i) cael amcan cyffredinol o ba mor aml y mae hyn yn digwydd a rhai enghreifftiau o achosion o'r fath***
- ii) mewn achosion o'r fath, amcan o gyfran y modiwl y bernir iddi gael ei dilyn drwy gyfrwng y Gymraeg a'r ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i'r casgliad hwn.***

**CYMHWYSTER PWNC**

- 13 Rydym wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r diffiniad o bynciau sy'n gymwys ar gyfer taliadau premiwm cyfrwng Cymraeg. Yn y cyswllt hwn, cynigiwn y canlynol.
- 14 Telir y premiwm ar gyfer cofrestriadau ar gyrsiau lle mae pynciau ar wahân i'r Gymraeg yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn cydnabod y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno darpariaeth o'r fath. Nid ystyrir bod cyrsiau iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan y diffiniad hwn. At ei gilydd, felly, bydd modiwlau'n ymwneud ag iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn parhau'n anghymwys ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg.
- 15 Serch hynny, cydnabyddwn y gall fod modiwlau'n ymwneud â meithrin sgiliau iaith sydd â'r nod o alluogi myfyrwyr i weithredu mewn cyd-destunau proffesiynol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg a ddylai fod yn gymwys. Yn yr un modd, gall fod modiwlau ar feithrin medrau proffesiynol penodol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhai enghreifftiau yw: modiwlau ar fedrau cyfieithu neu weinyddu proffesiynol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg; modiwlau sy'n dysgu i fyfyrwyr y derminoleg a chysyniadau sy'n angenrheidiol i ymdrin â'u pwnc neilltuol yn y Gymraeg. Yn yr achosion hyn, dylid dychwelyd y modiwlau fel rhai cymwys.
- 16 Tynnwyd ein sylw at y ffaith bod modiwlau llenyddiaeth Gymraeg na fyddent fel rheol yn gymwys yn cael eu defnyddio weithiau mewn rhaglenni'n ymwneud â hanes a diwylliant Cymru er mwyn ymdrin ag agweddau hanesyddol a diwylliannol ar y llenyddiaeth. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyrir y dylai'r canlyniadau dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio iaith a llenyddiaeth Gymraeg fod yn wahanol i'r rheiny ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio hanes a diwylliant Cymru. Felly, er y gall y ddarpariaeth fod yn gyffredin, byddai'r gwahanol ganlyniadau dysgu yn awgrymu bod y modiwlau'n wahanol. O ganlyniad, yn achos myfyrwyr hanes a diwylliant Cymru, dylai modiwlau o'r fath gael eu hystyried a'u codio'n fodiwlau hanes neu ddiwylliant Cymru, yn hytrach na llenyddiaeth, a'u dychwelyd fel modiwlau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg fel y bo'n briodol.
- 17 Dylid defnyddio maes 13, SBJ01, yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU i godio modiwlau iaith a llenyddiaeth Gymraeg; y cod JACS yw Q560 neu Q561. Ni fydd y modiwlau hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg ac felly ni chânt eu cynnwys wrth gyfrifo cyllid. Os caiff modiwl ei godio gydag SBJ02, SBJ03 neu SBJ04 (meysydd 16, 22, 25) yn hafal i Q560 neu Q561, ac os na chaiff SBJ01 ei godio felly, gallai'r modiwl hwn ddal i gael ei gynnwys yn y cyfrifiadau premiwm, ond gall gael ei ddiddymu drwy dulliau llaw. Felly mae'n bwysig i sefydliadau godio'r maes SBJ01 yn gywir er mwyn i ni allu barnu beth sy'n gymwys ar gyfer cyllid cyfrwng Cymraeg a beth sydd ddim.
- i) Ceisir barn ar briodoldeb y cynigion uchod ar gymhwyster pwnc.***
  - ii) Hoffem gael enghreifftiau pellach o'r modiwlau proffesiynol a nodir ym mharagraff 13 uchod a barn ynghylch pam yr ystyrir eu bod yn wahanol i fodiwlau Gymraeg safonol.***

## TALIADAU'N SEILIEDIG AR FODIWL

- 18 Yn ystod y seminar ymgynghori, awgrymwyd y gellid cynnig cymhelliad pellach i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg pe câi taliadau ychwanegol eu rhoi am bob modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi rhoi ystyriaeth ddwys i hyn ac wedi dod i'r casgliad y gallai arwain at dreulio llawer o amser yn datblygu cwricwlwm wedi'i wasgaru ar draws nifer mawr o fodiwlau bach er mwyn denu'r cyllid ychwanegol, heb unrhyw gynydd o sylwedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Felly nid ydym yn bwriadu symud ymlaen â'r cynnig hwn.

## COFNOD STAFF

- 19 Mae Cofnod Staff yr AYAU yn gofyn i sefydliadau gynnwys gwybodaeth am staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Sylweddolwn ei bod hi'n anodd diffinio'r categorïau hyn yn fanwl a bod yn rhaid i'r sefydliad benderfynu pwy y dylid ei gynnwys, yn enwedig mewn perthynas â staff sy'n "gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg".
- 20 Mae'r data hyn am staff cyfrwng Cymraeg yn gallu bod yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth wrth i ni weithio gyda'r sector i ddatblygu a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Hoffem ddeall yn well ar ba sail y mae sefydliadau'n rhoi staff yn y categorïau hyn fel y gallwn wneud penderfyniadau mwy effeithiol ar ddatblygiadau. Ar sail y wybodaeth a dderbyniwn mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gallu darparu arweiniad pellach a allai wneud y data yn fwy cadarn.

***Byddem yn croesawu cael gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir gan sefydliadau i benderfynu a ddylid cofnodi staff fel rhai sy'n addysgu neu'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar Gofnod Staff yr AYAU.***

## YMATEBION I'R CYLCHLYTHYR HWN

- 21 Fel y nodwyd uchod, mae dau gam i'r ymgynghoriad hwn:
- Ceisir ymatebion ynghylch y trothwy cymhwyster ar gyfer cyllid premiwm cyfrwng Cymraeg (paragraffau 8 i 10) erbyn **19 Ionawr 2007**. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflwyno'r newidiadau wrth gyfrifo cyllid premiwm 2007/08. Cewch gyflwyno eich ymatebion i'r adran hon ar y ffurflen a ddarparwyd (Atodiad C).
  - Ymatebion i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Gan fod y data a ddefnyddir gan y Cyngor i gyfrifo taliadau premiwm yn ôl-weithredol, bydd yn cymryd amser i'r newidiadau hyn weithio eu ffordd drwodd i ddyraniadau'r sefydliadau. Ceisir ymatebion erbyn **17 Chwefror 2007**.

Byddwchystal ag anfon eich ymateb at Alison Allan (alison.allan@hefcw.ac.uk).

DIFFINIAD PRESENNOL O FODWL DYSGU CYFRWNG-CYMRAEG

Caiff y meini prawf canlynol eu mabwysiadu wrth ddiffinio modwl fel un sy'n cynrychioli dysgu cyfrwng-Cymraeg ffurfiol:

- a) dylai'r modwl fod yn elfen ddysgu strwythuredig, gyda maes llafur a gymeradwywyd yn unol â chonfensiynau'r sefydliad.
- b) lle dysgir y modwl yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg disgwylir y bydd holl waith ysgrifenedig y myfyriwr yn cael ei gwblhau yn y Gymraeg, ac eithrio lle mae gofynion y cwrs yn mynnu fel arall.
- c) lle mae modwl yn cynnwys dysgu cyfunol sy'n rhan ffurfiol o'r cwrs (darlithiau, seminarau neu waith labordy wyneb yn wyneb, neu'r hyn sy'n cyfateb yn achos dysgu o bell) a lle mae cyfran o'r gweithgaredd ffurfiol hwn yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg, yna gellir cofnodi'r gyfran honno fel dysgu cyfrwng-Cymraeg os yw'n cyfateb i 25% neu fwy o'r gweithgaredd ffurfiol cyfan sy'n gysylltiedig â'r modwl. Yn yr achosion hyn ni fydd yn rhaid i holl waith ysgrifenedig y myfyriwr gael ei gwblhau yn y Gymraeg.

Gall y Cyngor geisio gwybodaeth ychwanegol am y dulliau a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyfrannau (gweler isod am wybodaeth ar gyfrifo cyfrannau).

- ch) rhaid i berfformiad y myfyrwr sy'n dilyn y modwl fod yn rhan annatod o'r broses asesu arferol.
- d) dylid arolygu'r dysgu drwy'r dulliau sicrhau ansawdd arferol a ddefnyddir yn y sefydliad.

CYFRIFO'R BAICH MYFYRWYR Y GELLIR EI BRIODOLI I FODWL DYSGU CYFRWNG CYMRAEG

Yn achos modwl a ddysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg

Y baich myfyrwr Cyfrwng-Cymraeg fydd y gyfran o flwyddyn gyfwerth ag amser llawn (CAALI) a briodolir i'r modwl. O fewn Cofnod Modylau HESA, fe gofnodir hyn yn Maes Rhif 6 -*Proportion of FTE*.

Yn achos modwl a ddysgir yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg

Y baich myfyrwr Cyfrwng-Cymraeg fydd lluoswm y gyfran o flwyddyn gyfwerth ag amser llawn a briodolir i'r modwl a'r gyfran o'r modwl yr ystyrir ei bod yn cael ei dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gyfran o'r modwl yr ystyrir ei bod yn cael ei dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei diffinio fel y canran o'r dysgu cyfunol wyneb yn wyneb cyfan sy'n rhan ffurfiol o'r cwrs (darlithiau, seminarau neu waith labordy wyneb yn wyneb, neu'r hyn sy'n cyfateb yn achos dysgu o bell) a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylai'r cyfrannau sy'n llai nag 25% gael eu cyfrif. O fewn Cofnod Myfyrwr HESA fe gofnodir hyn fel Meysydd Rhif 91 i 106 -*Module proportion of teaching in Welsh*.

Felly yn nhermau Cofnod Myfyrwyr HESA, ar gyfer Modwl 6 dyweder,

Baich Myfyrwyr Cyfrwng-Cymraeg =  
Maes Rhif 6 (Cofnod Modylau) x Maes Rhif 96 (Cofnod Myfyrwyr)

Sylwer - Os nad yw sefydliadau'n cynnig cyrsiau eto ar sylfaen modylaidd yna bydd angen cofnodi data yn nhermau'r uned o ddysgu sy'n briodol i'r cwrs dan sylw (ee, Prifysgol Cymru Rhan 1, blwyddyn lawn o gwrs, ag ati). Yn yr achosion hyn, bydd y trothwy o 25% ar gyfer cofnodi cyfrannau yn cael ei gymhwyso at yr uned o ddysgu dan sylw.

#### ADNABOD MODWL DYSGU CYFRWNG-CYMRAEG

At bwrpas adnabod modwl fel un lle mae dysgu'n digwydd yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid gosod y llythyren W yn ddigid terfynol y Dynodwr Modwl -Maes Rhif 5 ar y Cofnod Modylau a'r maes cyfatebol (75-90) ar y Cofnod Myfyrwyr.

#### COFNOD STAFF

Mae Cofnodion Staff HESA yn gofyn i'r sefydliadau baratoi ystadegau ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, sef

Gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg -Maes Rhif 21

Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg -Maes Rhif 22

Nid oes angen ystadegau llawn hyd 1995/96. Dylai'r sefydliadau nodi, wrth lenwi'r ffurflenni hyn, y dylent fabwysiadu'r meini prawf uchod ar gyfer diffinio modwl fel un sy'n cynrychioli dysgu cyfrwng-Cymraeg ffurfiol pan fyddant yn penderfynu a yw aelod o'r staff yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio.

**DIFFINIAD ARFAETHEDIG O FODIWL ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG**

Caiff y meini prawf a ganlyn eu mabwysiadu wrth ddiffinio modiwl fel un a gyflwynir yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg:

- a) Dylai'r modiwl fod yn elfen strwythuredig o'r ddarpariaeth, gyda maes llafur a gymeradwywyd yn unol â chonfensiynau'r sefydliad.
- b) Os cyflwynir y modiwl yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, rhaid i'r holl waith a gyflwynir ar gyfer asesu gan y myfyriwr gael ei gwblhau yn y Gymraeg, ac eithrio lle mae gofynion y cwrs yn mynnu fel arall.
- c) Os cyflwynir y modiwl yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai sefydliadau gyfrifo'r gyfran o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid mabwysiadu'r dull hwn hefyd os yw modiwl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg. [Sylwer: efallai y bydd modd i ni ddarparu arweiniad pellach ar hyn ar ôl derbyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.]

Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn ceisio gwybodaeth ychwanegol am y modd y cafodd y cyfrannau eu cyfrifo.

- d) Rhaid i berfformiad y myfyrwr sy'n dilyn y modiwl fod yn rhan annatod o'r broses asesu arferol.
- e) Dylai'r ddarpariaeth fod yn agored i'r broses arferol o sicrhau ansawdd a ddefnyddir o fewn y sefydliad.

**DATA Y CYNIGIR EU TYNNU A'R CYFRIFIAD ARFAETHEDIG O GYLLID CYFRWNG CYMRAEG**

Mae'r holl ddata a ddefnyddir i gyfrifo dyraniadau'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg yn cael eu tynnu o gofnodion Myfyrwr a Modiwlau'r AYAU yn unol â'r arweiniad yn y cylchlythyr ar ofynion data addysg uwch ar gyfer 2006/07 (W06/39HE, Atodiad A, paragraffau 31-33).

Dynodi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

At bwrpas dynodi modiwl fel un sy'n cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid gosod y llythyren W fel nod olaf y dynodwr Modiwl MODID (maes 5 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU), a dylai cyfran y modiwl a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg gael ei dychwelyd yn MODPW (meysydd 101-116 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU).

Dynodi darpariaeth iaith a llenyddiaeth Gymraeg

Nid yw modiwlau a ddynodir fel rhai iaith neu lenyddiaeth Gymraeg, h.y., lle mae SBJ01 (maes 13 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU) yn hafal i Q560 neu Q561, yn cael eu cynnwys yn y data a dynnir.

Defnyddir y maes pwnc cyntaf (SBJ01) i ddiffinio pynciau at y pwrpas hwn, felly fe gynhwysir modiwlau gydag SBJ02, SBJ03, SBJ04 = Q560 neu Q561. Felly mae'n bwysig codio'r maes SBJ01 yn briodol.



Penderfynu faint o'r modiwl a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae gwerth MODPW a gwerth credyd y modiwl, CRDTPTS (maes 9 yng Nghofnod Modiwlau'r AYAU), yn cael eu defnyddio i gyfrifo maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Maint credyd a gyflwynir drwy'r Gymraeg = MODPW/100 x CRDTPTS**

**Cynigir mai dim ond modiwlau sy'n cwrdd â'r trothwy lleiaf o 2 werth credyd a ddylai gael eu cynnwys wrth gyfrifo'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg.**

Cyfrifo cyfanswm y maint credyd tybiannol drwy gyfrwng y Gymraeg

Caiff y maint credyd a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg ei symio dros yr holl fyfyrwyr i roi cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg am bob modiwl.

Cyfrifo'r Premiwm Cyfrwng Cymraeg

Crynhoir cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl modd/lefel astudio ac yn ôl Categori Pwnc Academaidd (CPA).

Defnyddir cyfartaledd o faint credyd y ddwy flynedd flaenorol wrth gyfrifo'r premiwm. Lluosir y cyfartaledd hwn â'r uned gyllid ar gyfer CPA y modiwl ac mae'r premiwm ar gyfer cyllid cyfrwng Cymraeg yn cael ei gymhwyso\*. Cyfrifir cyfanswm y cyllid drwy symio dros yr holl fodiwlau i roi cyfanswm ar gyfer pob sefydliad

\*Sylwer mai 26% oedd y premiwm ar gyfer 2006/07 ond bod hyn yn debygol o newid oherwydd y symud o gyllido yn ôl uned adnodd i gyllido yn ôl uned gyllid. Bydd yr effaith yn niwtral o ran cost.

Cyfrifir y cyllid yn ôl modd/lefel a CPA fel:

**Cyllid = (cyfanswm y maint credyd tybiannol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg 2004/05 + 2005/06) x 0.5 x uned cyllid x premiwm**

**COFNOD STAFF**

Mae Cofnod Staff yr AYAU yn gofyn i'r sefydliadau ddychwelyd gwybodaeth am addysgu (neu'r gall i addysgu) drwy gyfrwng y Gymraeg, yn benodol:

Y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ABLWELSH (P18)

Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg TCHWLH (C10)

(Ar Gofnod Staff yr AYAU: P= tabl personau; C= tabl cytundebau; mae'r rhif yn dynodi rhif y maes ar y cofnod.)

**Taliadau Premiwm Cyfrwng Cymraeg**

**Ymgynghoriad**

**Cam 1: Trothwy Cymhwyster**

**(Paragraffau 8 to 10)**

**Sefydliad:**

|  |
|--|
| Cytunwn/Ni chytunwn ei fod yn briodol diffinio'r trothwy ar gyfer taliadau premiwm yn nhermau credyd.* |
|--|

|   |
|---|
| Cytunwn/Ni chytunwn y dylid gosod y trothwy cymhwyster ar 2 greddyd.* |
|---|

\*Dilëir fel y bo'n briodol

|          |
|----------|
| Sylwadau |
|----------|

**Llofnod:**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

